



Ein cyf/Our ref MA/LN/0628/25

Cadeirydd Dros Dro
Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL)

18 Awst 2025

Annwyl Mike

Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru: Llythyr Cylch Gwaith 2025-2026

Rwy'n ysgrifennu i nodi'r cylch gwaith ar gyfer Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru (DPAAC), a fydd yn dod i fodolaeth ar 1 Medi 2025. O'r dyddiad hwn ymlaen, bydd y llythyr cylch gwaith hwn yn disodli'r un a gyhoeddwyd i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL) ar gyfer y cyfnod 2022–2026, ac yn parhau mewn grym hyd nes y cyhoeddir llythyr cylch gwaith newydd ar gyfer 2026–2030 yn dilyn etholiad cyffredinol arferol y Senedd ym Mai 2026. Rwy'n ddiolchgar iawn i chi ac i weddill y Bwrdd am gefnogi'r broses o drosglwyddo o'r NAEL i'r corff newydd, DPAAC.

Ein gweledigaeth yw i bob dysgwr yng Nghymru gyrraedd eu llawn botensial o fewn system addysg gynhwysol sy'n gwerthfawrogi cyfraniad unigryw pob dysgwr ar eu taith 3–16 ac ymlaen. Rydym yn adeiladu system ysgolion agored a chydweithredol lle mae arweinwyr ysgolion a staff ysgolion yn meddu ar wir rym dros eu gwelliant eu hunain. Mae hyn yn golygu bod ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â'u hawdurdodau lleol, yn cefnogi ei gilydd ar y cyd ac yn cael mynediad at ddysgu proffesiynol pwrpasol i gefnogi eu hanghenion gwella.

Bydd DPAAC yn dwyn ynghyd y ddarpariaeth a'r cymorth cenedlaethol i'n hymarferwyr. Bydd hyn yn symleiddio'r maes cymorth dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth cenedlaethol mewn ymateb i'r farn a fynegwyd yn glir gan benaethiaid fel rhan o'r adolygiad i'n partneriaid addysg. Bydd angen i DPAAC weithio mewn partneriaeth ag eraill i sicrhau ffocws strategol sy'n cefnogi ein hagenda ddiwygio. Fel yr amlinellir yn yr Erthyglau Cymdeithasu, bydd DPAAC yn:

- cefnogi'r gwaith o weithredu gweledigaeth a blaenoriaethau Gweinidogion Cymru, fel y nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn, ar gyfer gwella addysg yng Nghymru;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- cydweithio â'r system a phartneriaid i ddarparu ystod gydlynol o gyfleoedd dysgu proffesiynol yng Nghymru i gynorthwyywyr addysgu ac athrawon er mwyn datblygu gweithwyr addysg proffesiynol myfyriol, mwy ymholgar a chydweithredol;
- gweithio gyda'r system a phartneriaid i ddarparu ystod gydlynol o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar dyfu arweinyddiaeth gydweithredol, ar draws y system drwy ddatblygu galluoedd proffesiynol arweinwyr presennol a darpar arweinwyr a chynghorwyr gwella ysgolion ar draws y system addysg;
- sicrhau bod holl ymarferwyr ysgolion Cymru, gan gynnwys athrawon cyflenwi, yn gallu manteisio i'r eithaf ar wasanaethau dysgu proffesiynol gan sicrhau mynediad teg yn Gymraeg a Saesneg;
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, MEDR, Estyn a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cael ei arwain gan ymchwil, yn canolbwyntio ar arferion, yn ymateb i anghenion ymarferwyr, arweinwyr a chynghorwyr gwella ysgolion ac yn bodloni'r blaenoriaethau cenedlaethol a nodwyd.

Rwy'n falch o 1af Medi bydd DPAAC yn ddatblygu'r gwaith hwn, gan ddiogelu, meithrin ac ysbrydoli arweinwyr, athrawon, cynorthwyywyr addysgu a'n staff cynghori ysgolion nawr ac ar gyfer y dyfodol ar draws y system gyfan mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Hoffwn ddiolch i Fwrdd y Cyfarwyddwyr am gefnogi'r broses bontio o'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL) i DPAAC a bydd y Llythyr Cylch Gwaith hwn yn disodli'r Llythyr Cylch Gwaith a gyhoeddwyd i'r NAEL am y cyfnod 2022-2026.

Mae'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y llythyr hwn ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mai 2026 i gwmpasu'r cyfnod pontio. Yna bydd Llythyr Cylch Gwaith newydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer tymor nesaf y Senedd 2026 – 2030.

Er mwyn cefnogi blwyddyn gyntaf y gweithrediad a chyflawni'r amcanion, gallaf gadarnhau bod cyllideb adnoddau cychwynnol DPAAC ar gyfer 2025–26 yn £3,247,064. Bydd y swm hwn ar gael drwy lythyr cyllido, i'w dalu ymlaen llaw yn unol ag angen a ddangosir. Efallai y byddwn yn cyhoeddi llythyr dyfarni cyllido pellach i gadarnhau unrhyw gyllid ychwanegol a allai gael ei ddyfarnu ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2025–26. Ein nod yw darparu'r gyllideb ddangosol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026–27 yn yr hydref at ddibenion cynllunio.

Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda chi i gyflawni'r blaenoriaethau hyn ac i sefydlu DPAAC fel partner allweddol yn ein trefniadau newydd ar gyfer gwella ysgolion.

Yn gywir



Lynne Neagle AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru: Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2025-26

1. Sefydlu DPAAC fel sefydliad strategol gyda diwylliant cadarnhaol a chynhwysol a llywodraethiant cadarn sy'n:

- Gweithredu system llywodraethu cadarn gan gynnwys Bwrdd sy'n gweithredu'n llawn a swyddogaeth weithredol sy'n ddigon i allu cyflawni ei gylch gwaith;
- Gallu bodloni ei ofynion cyfreithiol ac ariannol fel cwmni gan gynnwys bod â'r holl bolisiâu rheoli angenrheidiol ar waith;
- Cyflawni'r gofynion a nodir yn Nogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru, gan gynnwys datblygu'r cynlluniau corfforaethol a gweithredol;
- Meddu ar weledigaeth glir ac wedi sefydlu perthynas gynhyrchol â sefydliadau partner allweddol;
- Cynnal Grŵp Rhanddeiliaid gweithredol a chyfranogol sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr, cynorthwywyr addysgu, cynghorwyr gwella a gweithwyr ieuenctid; a
- Meddu ar bresenoldeb ymatebol ar-lein a chyfryngau cymdeithasol.

2. Datblygu prosesau sicrhau ansawdd i sicrhau bod yr holl ddysgu proffesiynol a ddatblygwyd ac a ddarperir gan DPAAC a'i bartneriaid yn bodloni meini prawf ardystio Llywodraeth Cymru a bod trefniadau cadarn ar waith i fonitro effaith yr holl weithgaredd.

3. Arwain datblygiad galluoedd proffesiynol arweinwyr presennol ac uchelgeisiol mewn ysgolion a gwaith ieuenctid drwy:

- Adolygu'r holl ddarpariaeth bresennol ar gyfer arweinwyr a datblygu rhaglen gydlynol o gyfleoedd datblygiad proffesiynol.
- Gweithio'n agos gyda phartneriaid a Llywodraeth Cymru i nodi bylchau yn y ddarpariaeth a dechrau gwneud argymhellion ar y ffordd orau o lenwi'r bylchau hynny i sicrhau bod galluoedd arweinyddiaeth pob ymarferydd yn cael eu datblygu.
- Cyflawni'r CPCP, gan sicrhau bod y rhaglen beilot yn cael ei gwerthuso a'i diwygio yn unol â hynny ar gyfer carfannau'r dyfodol.

4. Cydweithio ag ysgolion, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol a phartneriaid i ddarparu ystod gydlynol o ddatblygiad proffesiynol o ansawdd uchel a chyfleoedd dysgu proffesiynol yng Nghymru i gynorthwywyr addysgu ac athrawon er mwyn datblygu gweithwyr addysg proffesiynol myfyriol, ymholgar a chydweithredol; Dylai hyn gynnwys:

- Gweithio gydag awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol ar barhau i ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen gynefino genedlaethol ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwysu a Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol, CYDAG a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar ddatblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol i gefnogi ymarferwyr

yn y sector cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

- Gweithio gydag awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol a phartneriaid allweddol eraill ar ddysgu proffesiynol i gefnogi addysgu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
5. **Cydweithio â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, MEDR, Estyn, Adnodd, prifysgolion a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sicrhau bod datblygiad proffesiynol a dysgu proffesiynol yn seiliedig ar ymchwil, yn canolbwyntio ar ymarfer ac yn ymateb i anghenion ymarferwyr ysgol, arweinwyr ac ymgynghorwyr gwella, gan gyd-fynd â'r blaenoriaethau cenedlaethol a nodwyd. Mae cydnerthedd allweddol i hyn yn deillio o'r angen i alinio â blaenoriaethau craidd Cwricwlwm i Gymru ac i'w datblygu ymhellach, gan gynnwys meysydd allweddol megis llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â dylunio'r cwricwlwm a'r dulliau asesu.**
 6. **Symleiddio mynediad i bob ymarferydd ysgol yng Nghymru, gan gynnwys athrawon cyflenwi, i ddatblygiad proffesiynol a chyfleoedd dysgu proffesiynol ar Hwb gan sicrhau mynediad teg yn Gymraeg a Saesneg.**